

Abiraterone ar gyfer trin canser metastatig hormon-atglafychol y brostad cyn y caiff cemotherapi ei ddefnyddio

Ebrill 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir [Abiraterone](#) (Zytiga), a roddir gyda prednisone neu prednisolone, fel triniaeth posibl ar gyfer pobl sydd â [canser metastatig hormon-atglafychol y brostad](#) sydd â symptomau ysgafn neu ddim symptomau o gwbl lle nad yw [therapi atal androgenau](#) yn gweithio mwyach, a chyn bod angen triniaeth cemotherapi.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ganser metastatig hormon-atglafychol y brostad, a bod eich meddyg o'r farn mai abiraterone yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai abiraterone fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd abiraterone oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Y cyflwr a'r driniaeth

Pan fydd canser y brostad wedi lledaenu i ran arall o'r corff, fe'i gelwir yn ganser datblygedig neu fetastatig y brostad. Yn y mwyafrif o ddynion sydd â chanser y brostad, gall yr hormon testosterone wneud i'r canser dyfu ynghynt. Felly gellir trin canser y brostad â chyffuriau sy'n gwneud i'r corff gynhyrchu

llai o destosteron, neu adweithio iddo mewn ffordd wahanol. Gelwir hyn yn driniaeth atal androgenau.

Ar ôl cyfnod, bydd y canser yn peidio ag ymateb i driniaethau o'r fath - gelwir hyn yn ganser 'hormon-atglafychol'.

Gall abiraterone (Zytiga) rwystro'r corff rhag cynhyrchu androgen, hormon gwahanol sy'n gysylltiedig â chanser y brostad.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- [Prostate Cancer UK](#), 0800 074 8383
- [Tackle Prostate Cancer](#), 0845 601 0766
- [PCaSO Sefydliad Cymorth Canser y Brostad](#), 0845 650 2555
- [Orchid](#), 0808 802 0010
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1890-4